amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Y Samariad Da

DARLLENWCH
Luc 10: 25-37

Mae'r stori yma'n sôn am:
Caru'ch cymydog.

Un diwrnod gofynnodd un o athrawon yr Iddewon gwestiwn i Iesu: "Pwy yw fy nghymydog?" Dywedodd Iesu stori wrtho i ddangos bod pawb sydd eisiau help yn gymydog i ni.

Aeth dyn ar daith i Jericho. Ar y ffordd, daeth dynion drwg a dwyn ei bethau ac ymosod arno'n gas.

I ble'r oedd y dyn yn mynd?

J _ _ _ _ _ _

Daeth tri o bobl heibio. Offeiriad oedd y cyntaf. Wnaeth e ddim hyd yn oed edrych ar y dyn druan. Lefiad oedd yr ail – roedd e'n helpu yn y deml. Fe edrychodd e ar y dyn ond wedyn aeth i ffwrdd.

Samariad oedd y trydydd dyn. Doedd yr Iddewon a'r Samariaid ddim yn ffrindiau. Helpodd hwn y dyn oedd wedi brifo ac aeth ag ef i'r gwesty i wella.

Yna, gofynnodd Iesu gwestiwn, "Pa un o'r rhain oedd yn gymydog da?"

Atebodd yr athro, "Yr un oedd yn garedig."

Pwy helpodd y dyn oedd bron â marw?
Tynnwch linell o dan yr ateb cywir.
Yr Offeiriad Y Lefiad Y Samariad

Mae Iesu fel y Samariad Da. Mae eisiau bod yn ffrind i ni a'n helpu.

Enw

DARLLENWCH
Luc 15: 1-7

Mae'r stori yma'n sôn am:
Iesu'n gofalu amdanon ni.

Stori 2 Y Ddafad aeth ar Goll

Ydych chi wedi bod ar goll? Os do, fyddwch chi'n gwybod pa mor braf ydi hi pan fydd rhywun rydych chi'n nabod yn dod o hyd i chi.



Dywedodd Iesu stori am fugail oedd â chant o ddefaid ond bod un ohonyn nhw wedi mynd ar goll.

Gadawodd y bugail y defaid eraill i gyd a mynd i chwilio am yr un oedd ar goll. Doedd e ddim yn hapus nes iddo fe ddod o hyd i'r ddafad.

Yn y diwedd, pan ddaeth o hyd i'r ddafad, rhoddodd hi ar draws ei ysgwyddau a'i chario adref yn llawen.

Llanwch y bylchau.

Roedd gan y bugail _ _ _ _ o ddefaid. Aeth _ _ ddafad ar goll.

Daeth y bugail o _ _ _ i'r ddafad oedd ar _ _ __.

Mae'r Beibl yn dweud ein bod ni fel defaid sydd ar goll. Iesu yw'r Bugail Da sy'n chwilio amdanon ni ac yn gofalu amdanon ni. Rhoddodd Iesu ei fywyd er ein mwyn ni – dyna ddangos faint y mae'n ei feddwl ohonon ni.

Lliwiwch y geiriau hyn a'u dysgu:

Dywedodd Iesu:

"Fi yw'r Bugail Da"

Ioan 10: 11

Enw

DARLLENWCH
Luc 15: 11-24

Mae'r stori yma'n sôn am **Dweud 'Sori'**

Stori 3 Y Mab Ffol

Dywedodd Iesu stori am fachgen ifanc oedd wedi cael llond bol ar fyw gartref gyda'i dad. Gofynnodd i'w dad am arian. Rhoddodd ei dad arian iddo ac aeth y mab i ffwrdd. Aeth i wlad bell.

Ar y dechrau, cafodd amser ardderchog. Gwastraffodd ei arian i gyd. Pan oedd yr arian i gyd wedi mynd, doedd ganddo fe ddim ffrindiau. Doedd dim llawer o fwyd i'w gael yn y wlad. Yr unig waith oedd i'w gael oedd gofalu am foch rhyw ffarmwr.

Yna, sylweddolodd ei fod wedi bod yn ffol iawn. Penderfynodd fynd adref a dweud 'Sori' wrth ei dad. Gwelodd ei dad ef yn dod o bell a rhedeg i gwrdd ag ef. Cafodd groeso mawr. Trefnodd ei dad barti mawr i ddangos ei fod yn falch fod y mab wedi dod adref.



Ticiwch yr ateb iawn.

Rhoddodd y tad row i'r mab. ☐

Roedd y tad wedi maddau i'r mab. ☐

Dywedodd y tad wrth y mab am fynd i ffwrdd. ☐

Mae Duw yn disgwyl i ni ddweud 'Sori' am wneud pethau drwg. Mae'n fodlon maddau i ni a'n croesawu i'w deulu ef. ☐

Enw

DARLLENWCH
Marc 4: 1-20

Mae'r stori yma'n sôn am:
Gair Duw

Stori 4 Ffarmwr yn Hau

Un diwrnod, soniodd Iesu am ffarmwr oedd yn hau hadau ar y tir. Wnaeth yr hadau i gyd ddim tyfu'n blanhigion. Dywedodd Iesu fod pedwar peth yn gallu digwydd i hadau.

1) Maen nhw'n gallu syrthio ar y llwybr – yna mae adar yn dod a'u bwyta a dydyn nhw ddim yn tyfu o gwbl.

2) Maen nhw'n gallu syrthio ar dir creigiog lle nad oes llawer o bridd – yna dydyn nhw ddim yn gallu tyfu'n dda iawn ac maen nhw'n marw.

3) Maen nhw'n gallu cwympo i ganol y drain ac mae'r drain yn tagu'r planhigion.

4) Maen nhw'n gallu cwympo ar dir da a tyfu'n dda.

Lle mae'r hadau sy'n tyfu'n dda yn syrthio?

Ar d _ _ d _ .

Wedyn esboniodd Iesu'r stori. Gair Duw, sef y Beibl, yw'r hadau. Rydyn ni fel y tir lle mae'r hadau'n syrthio. Pan fyddwn ni'n dysgu o'r Beibl, me fel pe bai'r hadau'n cael eu hau yn ein calonnau ni.

Pa fath o dir ydych chi? Mae Duw eisiau i ni fod fel y tir da a gwrando ar beth y mae'n ei ddweud yn y Beibl.

Lliwich y geiriau hyn (Salm 119:42)

"Ymddiriedais yn dy Air."

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Sylwadau'r arweinydd:

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120